***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 15

# RHYDDHAD AR GYFER TRAFODIADAU PENODOL SY'N YMWNEUD Â THAI CYMDEITHASOL

## RHAN 4

## YMDDIRIEDOLAETHAU RHANBERCHNOGAETH

*Ymddiriedolaethau rhanberchnogaeth: ystyr ymddiriedolaeth ranberchnogaeth a thermau allweddol eraill*

10 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i baragraffau 11 i 17.

(2) Ystyr "ymddiriedolaeth ranberchnogaeth" yw ymddiriedolaeth tir o fewn yr ystyr a roddir i "trust of land" gan adran 1 o Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 (p. 47) sy'n bodloni'r amodau a ganlyn.

(3) Amod 1 yw bod eiddo'r ymddiriedolaeth—

(a) yn annedd, a

(b) yng Nghymru.

(4) Amod 2 yw bod un o'r buddiolwyr ("y landlord cymdeithasol") yn gorff cymwys.

(5) Amod 3 yw bod telerau'r ymddiriedolaeth—

(a) yn darparu y caiff un neu ragor o'r buddiolwyr unigol ("y prynwr"), a neb arall, ddefnyddio eiddo'r ymddiriedolaeth fel unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr wneud taliad cychwynnol i'r landlord cymdeithasol ("y cyfalaf cychwynnol"),

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr wneud taliadau ychwanegol i'r landlord cymdeithasol ar ffurf taliadau digolledu o dan adran 13(6)(a) o Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 ("y taliadau cyfwerth â rhent"),

(d) yn galluogi'r prynwr i wneud taliadau ychwanegol eraill i'r landlord cymdeithasol ("taliadau caffael ecwiti"),

(e) yn pennu buddiannau llesiannol cychwynnol y landlord cymdeithasol a'r prynwr y cyfrifwyd y cyfalaf cychwynnol ar eu sail,

(f) yn pennu swm, sy'n gyfwerth neu'n gysylltiedig â gwerth marchnadol yr annedd, y cyfrifwyd y cyfalaf cychwynnol ar ei sail, ac

(g) yn darparu y bydd buddiant llesiannol y prynwr yn eiddo'r ymddiriedolaeth yn cynyddu, a buddiant llesiannol y landlord cymdeithasol yn lleihau neu'n cael ei ddiddymu, wrth i daliadau caffael ecwiti gael eu gwneud.

(6) Nid yw adran 70 (ystyr gwerth marchnadol) yn gymwys i'r paragraff hwn.

(7) Yn Amod 1, mae "annedd" yn cynnwys tir sydd i'w ddefnyddio i adeiladu annedd.

(8) Yn Amod 2, ystyr "corff cymwys" yw—

(a) awdurdod tai lleol o fewn yr ystyr a roddir i "local housing authority" gan adran 1 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68);

(b) cymdeithas dai o fewn yr ystyr a roddir i "housing association" gan Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (p. 69);

(c) ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50).